# cwmpawd

## eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd



Rhif 51
Ionawr - Mawrth 2008

# Golygyddol

## *Gwynn Williams*

Mae gŵyl y gwario wedi mynd heibio unwaith eto. Beth bynnag arall sy'n wir am ein dathlu ar y Nadolig, mae'n gyfnod pryd y mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwario llawer iawn o arian. Mae byd masnach yn gwneud ei orau i'n cael i wneud hynny. Llwyddiant iddynt hwy yw ein bod wedi gwario mwy na'r flwyddyn cynt. Ac felly ânt ati i'n perswadio i wario am wythnosau ymlaen llaw.

Wedyn, braidd fod hynny drosodd nad ydynt yn ceisio ein perswadio i wario eto yn *sales* y flwyddyn newydd. Bydd y rheini'n siŵr o ddechrau'n syth ar ôl cinio Nadolig rywbryd! Mae llawer, fel y gwyddom, yn gwario mwy o arian nag sydd ganddynt. Ânt i ddyled i'w dalu'n ôl yn nes ymlaen – ac i lawer, ysywaeth, mae hynny'n golygu tristwch a thor calon.

Fel Cristnogion rydym yn rhan o'r math yma o fyd a chymdeithas, ond a oes yna ganllawiau i ni eu cydnabod a cheisio eu dilyn pan ddaw'n fater o wario a defnyddio ein hadnoddau materol?

Yn gyntaf, fel Cristnogion rydym yn cydnabod mai Duw sy'n berchen ar bob peth. Mae pob peth yn rhan o'i greadigaeth ef – nid oes dim sydd yn eiddo i ni yn yr ystyr absoliwt. Ond mae Duw yn gosod adnoddau yn ein dwylo a gwelir ni fel stiwardiaid ar ei ran ef yn hyn o fyd. Mae hyn yn anrhydedd ond hefyd yn gyfrifoldeb. Y cwestiwn yw, a ydyw ein stiwardiaeth yn un dda ai peidio?

Yn ail, mae'r Beibl yn dweud wrthym y dylid gwneud dau beth â'n hadnoddau. Yn gyntaf, mae'r hyn a gadwn er ein cynhaliaeth ein hunain a chynhaliaeth y rhai sy'n ddibynnol arnom. Yn ail, y gyfran yr ydym yn ei rhoi. Mae'r rhoi wedyn yn ymrannu'n ddwy: yr hyn sydd i'w roi i gynnal gwaith Duw a'r rhan sydd i'w rhoi i'r anghenus. Golyga hyn fod yn rhaid i ni i gyd benderfynu pa ganran o'n

henillion sy'n cael ei ddefnyddio yn y gwahanol ffyrdd. Byddai rhoi popeth i elusen, â'r canlyniad fod y teulu yn dioddef, yr un mor anghywir â gwario popeth arnom ni ein hunain heb roi dim i arall. Ond ai pob un yn ôl ei gydwybod ydi hi – neu a oes ganllawiau i'w dilyn?

Yn drydydd, faint y dylid ei roi i'r eglwys a'r anghenus? Mae llawer o wahaniaeth barn: e.e., mae rhai yn credu y dylai ein holl roi fod yn ddegwm o'n henillion; eraill yn credu y dylid rhoi degwm i'r eglwys; eraill yn credu mai dechrau yw degymu. Gellir dweud dau beth yn eithaf sicr. Yn gyntaf, cytunir fod yr Iddew dan drefn y gyfraith yn rhoi rhwng pumed a thraean o'i enillion cyn dod at yr hyn a elwid yn rhoddion gwirfoddol. Yn ail, nid oes rheolau yn y Testament Newydd ynglŷn â rhoi. Felly beth a wnawn? Rydym yn siŵr o gytuno na ddylai'r gwario arnom ein hunain fod yn wastrafflyd, ond yn gyfrifol yng ngoleuni ein hawydd i gynnal gwaith yr eglwys ac i fod yn hael at drueniaid ein byd. Mae llawer o Gristnogion wedi dod i'r casgliad ei bod yn anodd i'r rhan fwyaf ohonom ddadlau dros roi llai na degwm ac y gall hynny gynyddu fel y mae Duw yn ein llwyddo.

Yn olaf, dylai ein rhoi fod yn drefnus, yn hael, yn llawen ac yn weithred o addoliad i'r Duw sydd yn rhoi i ni bob peth.



# Dim Siawns

## *Lewis Roderick*

'*Dim siawns! No way, 'sdim gobaith!*'

'Sai'n gwbod sawl gwaith fi 'di cael rhywun yn ymateb yn y ffordd yna. Falle ddim ar lafar (weithiau, ti jyst yn gwbod beth ma' nhw'n meddwl...), ond sut bynnag – mae e'r un mor siomedig. Byddai'r ddau ohonom wedi bod yn trafod Iesu Grist am amser hir (ar y *graveyard shift*, rhwng 4 a 7 y bore yn *Y Gorlan* falle). Does neb wedi torri ar draws, ma'r paneidie 'di bod yn llifo, a – *hyd y pwynt yma* – ti wir 'di cael y syniad bod nhw'n hoffi beth ma' nhw 'di clywed.

'Ma' fe'n gwneud synnwyr llwyr! 'Sdim angen dyfalu sut un yw Duw – ma' fe 'di dangos ei hun yn Iesu Grist.'

'YES, YES, YES, YES, YES!!!' *rwy'n gweiddi. Yn dawel. Yn fy mhen*.

'A'r holl stwff 'na am yr angen am Waredwr...'

OK . . . falle 'nath e ddim digwydd cweit fel'na, ond ti'n deall y pwynt. Ro'dd e'n mynd yn dda. Ro'n ni'n mynd trwy bynciau pwysig: 'pwy o'dd Iesu?', 'pam daeth Iesu?', 'cariad Dduw', 'dicter Dduw'. Ac yn ara bach rwy wedi dechrau teimlo'n gyffrous. *Here goes*...

'Felly, ti'n meddwl dylset ti ddod yn Gristion?'

*Clank*.

A dyma ni, nôl i'r dechrau. '*No way, bendant, no way!*'

Nid dyna'r tro cyntaf imi glywed e. Mae'n eitha cyffredin. Mor bell â ma'r person yn y cwestiwn, pam fydden nhw eisiau dod yn Gristion? Pam ildio'r holl ryddid sy gyda nhw i 'neud beth ma' nhw moyn, pryd ma' nhw moyn, er mwyn dilyn *crefydd*!? Set o reolau am sut i fyw, beth i'w 'neud, pryd i'w 'neud. Ma'r cyfan yn swnio'n llawer gormod o ymdrech.

Y broblem yw bod pobl yn gwybod gormod am *grefydd* – mae rhai, hyd yn oed â TGAU mewn Addysg Grefyddol. Maen nhw'n gwybod mai sail pob crefydd yw'r ymdrech ddiddiwedd i gyrraedd Duw. Maen nhw'n gwybod am bum piler Islam: rhaid credu,

rhaid gweddïo, rhaid rhoi arian, rhaid ymprydio, rhaid mynd ar bererindod i Mecca unwaith yn dy fywyd ... a maen nhw'n gwybod bod hapusrwydd neu ddiflastod tragwyddol y Mwslim yn dibynnu'n helaeth ar gadw'r gorchmynion hyn .

Maen nhw'n gwybod hefyd am grefyddau eraill. Tystion Jehovah, er enghraifft, sy'n gofyn i chi dreulio deg awr y mis yn mynd o ddrws i ddrws, ac yn rhoi o leiaf deuddeg copi o'r cylchgrawn *The Watchtower* i ffwrdd ... ac fe allen nhw fynd ymlaen. Beth fyddai'r pwynt rhoi'r gorau i'w rhyddid er mwyn bod yn Gristion – jyst un ffordd arall o brofi eu gwerth o flaen rhyw Dduw ddydd ar ôl dydd? *'No way, no chance! Ma' gyda fi ryddid reit nawr – dim rheole, felly diolch, ond dim diolch yn fawr!'*

Ond wrth gwrs, y cwestiwn yw, ydy hi'n hollol gywir i ddweud bod y person yma'n wirioneddol rydd? Fe ddwedwn i, wrth siarad gyda nhw, nad ydyn nhw.

Cymerwch y person sy'n gwrthod Iesu Grist er mwyn cael *rhyddid i fyw i gyrraedd rhyw safon bob dydd*, sydd wedyn yn treulio'i amser yn ceisio profi o hyd ac o hyd ei fod e'n haeddu ei le ar ei gwrs coleg. Mae pob mymryn o egni sydd gyda fe wedi ei sianeli i'w brofi ei



hun, cael y graddau gorau, bod ar dop y dosbarth.

Neu beth am y person sy'n dewis *rhyddid* ac yn treulio'i holl amser yn ei daflu ei hun i ryw berthynas – ceisio bod y cariad gorau, neu'r ffrind mwyaf ffyddlon, neu'r rhiant mwyaf cyfrifol. Neu'r person sy'n gweitho bob awr o'r dydd er mwyn profi i'w fos ei fod e'n haeddu'r dyrchafiad yna; neu'r dyn sy'n treulio gormod o amser yn y *gym* er mwyn cael 'y corff'.

Dydy hynny ddim yn swnio fel rhyddid i mi. A byddwn i'n dweud ein bod ni i gyd, pob un ohonom, yn byw ar gyfer rhywbeth, ac yn ceisio cyfiawnhau

ein bodolaeth rywsut. Efallai nad ydyn ni'n gwneud hynny o flaen rhyw dduw crefyddol fel y Mwslim neu'r Tystion Jehovah, ond rydyn ni gyd yn ei wneud e. Ac mae pob un o'r ymdrechion gwahanol yma i brofi'n gwerth (cyfiawnhau ein hunain, fyddai'r Beibl yn ddweud) yr un mor *exhausting* â'i gilydd achos rydyn ni gyd yn gwybod ei bod hi'n bosib inni fethu.

I'r person sy'n byw er mwyn addysg, unwaith mae'n methu arholiad, mae'r person yna'n fethiant – ac mae sail gwerth ei fywyd wedi mynd. 'R un peth gyda pherson sy'n ceisio byw i gyfiawnhau ei hunan trwy ryw berthynas – unwaith maen nhw'n sylwi'n bod ni i gyd yn gallu bod yn hollol hunanol, maen nhw wedi methu. I'r dyn sy'n byw er mwyn y *gym* – unwaith mae'n cael anaf, ac yn methu gwneud 600 *sit-up* y dydd ac yn dechrau magu pwyse, mae e'n fethiant. Y gweithiwr caled? Methiant, a heb reswm i fyw yr eilad mae'r bos yn dyrchafu ei fab yn ei le. Ac mae'r holl bobl hyn – *ni i gyd* – wedyn yn yr un sefyllfa'n union â'r Mwslim sy'n colli gweddi, neu'r Tystion Jehovah sydd heb werthu digon o gylchgronau.

Ond nawr, meddyliwch am rai o eiriau Iesu Grist. Clywch y rhyddid sydd yn cael ei addo. 'Chi'n gweld, ni ddwedodd Iesu erioed: *dyma'r ffordd i fyw* – a chynnig ffordd arall i ni geisio cyfiawnhau ein hunain o flaen Duw trwy wneud unrhyw beth. Yn lle, addawodd Iesu i'w ddisgyblion, yn ystod y Swper Olaf, mai fe *yw'r ffordd* at Dduw. Y gamddealldwriaeth sy'n cael ei wneud yn aml yw meddwl mai esiampl o sut i fyw yn gywir i gyrraedd Duw yw Iesu. Mae e'n gymaint fwy na hynny. Mewn un frawddeg; 'myfi yw'r ffordd ... does neb yn dod at y Tad ond trwof fi', mae'r Iesu yn addo derbyniad – *cyfiawnhad* – gerbron Duw, nid trwy wneud pethau, ond trwy gredu mewn person.

Dydy'r Cristion ddim yn seilio ei berthynas â Duw ar weithredoedd, oherwydd mae'n gwbod ei fod yn mynd i fethu. Ond trwy gredu yn Iesu, na fethodd o flaen Duw erioed, fe gaiff ei dderbyn ryw ddydd. Dydy Cristnogaeth ddim yn ffordd *at* Dduw, ond mae'n berthynas gyda'r Ffordd ei hun.

Dyna yw rhyddid – gwybod, er i ni fethu, fod Duw yn ein derbyn. Yn ein methiant hyd yn oed, gallwn alw Duw yn Dad. 'Sdim rhaid i ni brofi ein hun, gan mai Iesu yw'r ffordd.

# Bedydd Ie

Dewis digwyddiadau pwysicaf bywyd Iesu Grist a wnaeth awduron yr Efengylau. Ni wyddom ddim am flynyddoedd cynnar yr Iesu, ar wahân i hanes ei eni, a'i fyned i'r Deml yn ddeuddeg mlwydd oed. Person preifat oedd yr Iesu, ond yn y bedydd daeth yn berson cyhoeddus. Dyma rai pethau i feddwl amdanynt yn y digwyddiad arwyddocaol hwn.

IOAN FEDYDDIWR Ef a gafodd y fraint o baratoi'r ffordd i'r Iesu. Gwnaeth hynny yn unol â phroffwydoliaeth yr Hen Destament (Eseia 40:3). Wrth wneud ei waith, dangosodd ddewrder a gostyngeiddrwydd; dewrder trwy gyhoeddi neges amhoblogaidd, sef neges o farn (Mathew 3:10), a gostyngeiddrwydd o sylweddoli pwy oedd y Crist (Mathew 3:11). Mae angen dewrder a gostyngeiddrwydd arnom ninnau hefyd yn ein gwaith.

Ioan oedd cynrychiolydd yr hen oruchwyliaeth, ond cyhoeddodd fod goruchwyliaeth newydd ar fin cychwyn. Cychwynnodd honno pan fedyddiwyd yr Iesu gan Ioan. Nid cael ei fedyddio i fod yn un o ddisgyblion Ioan a wnaeth yr Iesu, ond er mwyn gwneud gwaith ei Dad. Y foment y bedyddiwyd ef, cymerodd yr Iesu le Ioan. Cyflawnwyd 'pob cyfiawnder'; hynny yw, dyma'r llwybr i gyflawni holl ofynion yr Hen Destament. Amharod oedd Ioan i weld hyn ar y cychwyn. Cyhoeddi'r deyrnas a wnaeth Ioan, ond ei sefydlu a wnaeth yr Iesu.

IESU GRIST Un o'r pethau canolog yn y digwyddiad yw hunanymwybyddiaeth yr Iesu. Gwyddai'n iawn am bopeth oedd i ddigwydd. Dyma pryd y daeth ei hunanymwybyddiaeth i'w llawn dwf. Mab Duw a anwyd ym Methlehem, ond fel bachgen y deallai Iesu hynny ar y cychwyn. Roedd yn wir ddyn, ac felly datblygodd yn gorfforol a meddyliol. A derbyniodd yr Ysbryd Glân yn y bedydd. Ar gychwyn ei weinidogaeth gyhoeddus, ehangwyd ei ymwybyddiaeth o'i waith.

Pan ddaeth i fan y bedydd, sefyll gyda'r dyrfa a wnaeth yr Iesu ac nid

# su Grist

gyda Ioan; sefyll gyda'r rhai oedd eisiau eu bedyddio, nid gyda'r un oedd yn bedyddio. Arwydd o'u hangen am faddeuant pechodau oedd y bedydd i'r dyrfa, ond nid oedd dim pechod yn yr Iesu. Hynny yw **uniaethodd** ei hun â phechaduriaid. Yn y bedydd, daeth y gair o'r nef, 'Hwn yw fy annwyl Fab, yn yr hwn y'm bodlonwyd'. Daw'r geiriau 'yn yr hwn y'm bodlonwyd' o Eseia 42:1, darn sy'n sôn am y Meseia fel y gwas dioddefus. Bywyd o uniaethu oedd bywyd yr Iesu. Roedd yn bwyta ac yfed gyda phechaduriaid a phublicanod; yn tosturio wrth y gwahanglwyfus, ac yn cyffwrdd â llygaid y deillion. A bu'n ffyddlon hyd angau'r groes. Roedd cysgod y groes ar y bedydd.

Daw gweddill y geiriau, 'Fy Mab ydwyt ti', o Salm 2. Yr hyn a geir yno yw coroni'r brenin, ac felly, yn y bedydd, cyhoeddwyd y Mab yn Frenin. Gwyddai'r Iesu am y groes, ond gwyddai hefyd am yr orsedd. Cysgod oedd brenin Salm 2, o'r Brenin. Os oedd dioddefaint, roedd **coroni** i ddigwydd hefyd. Ac yn Eseia 52, cyflwynir y concwerwr, cyn disgrifio dioddefaint y gwas ym mhennod 53.

Y TAD, Y MAB, YR YSBRYD GLÂN Y Tad a gymeradwyodd ei Fab, y Mab a fedyddiwyd, a disgynnodd yr Ysbryd Glân fel colomen arno. Roedd perthynas berffaith rhwng y tri. Nid yw'r gair 'Trindod' yn y Testament Newydd, ond mae hanes y bedyddio yn un adran o'r Ysgrythur sy'n sail i athrawiaeth y Drindod. Arferai Awstin ddweud, 'Os ydych am weld y Drindod, ewch i'r Iorddonen'.

IOAN FEDYDDIWR Ni sylweddolodd Ioan ar y cychwyn arwyddocâd bedydd Iesu Grist. Dywedodd hynny ddwy waith ym mhennod gyntaf Efengyl Ioan, adnodau 31 a 33. Ond gwelodd hynny'n glir, yn union ar ôl y bedydd: 'Wele Oen Duw, sy'n tynnu ymaith bechod y byd' (Ioan 1:29). Cydnabu fod yr holl aberthau dros bechod wedi eu cyflawni yng Nghrist. Mor rhyfedd ei Berson a'i waith. Mae'n Fab, yn Was, yn Oen, ac yn Frenin. A welsom ni arwyddocâd y bedydd? Os digwyddodd hynny, bydded i ddymuniad Ioan Fedyddiwr fod yn ddymuniad i ninnau hefyd: 'Rhaid iddo ef gynyddu, ac i minnau leihau' (Ioan 3:30).

Noel Gibbard

# Holi Hwn a Hon

# Aman



**Sut ddest ti'n Gristion ?**
Des i'n Gristion yn y chweched dosbarth yn yr ysgol. Daeth ffrind nôl i'r ysgol ar ôl bod ar wersyll y Mudiad am wythnos dros yr haf, ar dân dros yr Efengyl ac eisie rhannu'r newyddion da – gwirioneddau'r Beibl – â phwy bynnag oedd yn barod i wrando. Felly, ar siwrne bws o Gefneithin i Gaerfyrddin i ymarfer wythnosol y gerddorfa, do'dd dim dewis 'da fi ond gwrando ar beth o'dd 'da fe i'w ddweud. Ar y dechrau, a bod yn onest, do'n i ddim wir eisie clywed am realiti bywyd heb Grist a chanlyniadau pechod ar y ddynoliaeth, ac felly eistedd yn dawel a bod yn gwrtais o'n i'n ei wneud. Ond yn raddol, trwy dystiolaethu ffyddlon a chyson fy ffrind, dechreuais weld a meddwl am Iesu Grist am y tro cyntaf fel person go iawn â theulu a ffrindiau, ac a ddaeth i' r byd hwn i farw dros bobl sy'n haeddu uffern. Wrth i Grist ddod yn fwy real i fi, daeth cariad Duw y Tad hefyd yn rhywbeth gweladwy i fi, yn aberth Ei annwyl fab trosof fi!

Trwy ddarllen llyfr Peter Jeffries, *I will never become a Christian*, am dystiolaethau pob math o bobl yn dod i ymwybyddiaeth o Iesu Grist

# da Griffiths

a'i adnabod yn Waredwr, siarad â Christnogion hŷn a gweld eu cariad hwy tuag at Iesu Grist, a Duw yn gweithio mewn ffordd amlwg yn eu bywydau nhw, des i sylweddoli nad yw hi'n ddigon jyst i fod yn berson da. Dy'n ni ddim wedi'n creu i fodoli heb Dduw yn ein bywydau, ond yn ddisgybl ysgol un ar bymtheg mlwydd oed ro'n i'n bell oddi wrth Dduw. Am y tro cyntaf dechreuais ddarllen yr Efengylau allan o wir ddiddordeb a syched am wybod mwy am Iesu Grist. Ces i fy argyhoeddi o'm pechod, ond yn hytrach na theimlo'n fethiant llwyr, gwnes i lawenhau bod yna ateb ar gael yng ngras a chariad Duw y Tad tuag ataf.

**P'un ydy dy hoff emyn?**
Mmmm … cwestiwn anodd, achos mae nifer wedi taro tant ac wedi bod yn bwysig ac yn help imi ar wahanol gyfnodau yn fy mywyd – rhai yn emynau modern a rhai'n draddodiadol. Ond, ar ddechrau blwyddyn newydd dwi'n meddwl bod yr emyn canlynol yn adduned dda i fi ei gwneud: byw fy mywyd personol a chyhoeddus yn driw i Iesu Grist wrth gofio am yr hyn a wnaeth E trosof fi.

*Dilynaf fy Mugail trwy f'oes,*
*Er amarch a gwradwydd y byd;*
*A dygaf ei ddirmyg a'i groes,*
*Gan dynnu i'r nefoedd o hyd;*
*Mi rodiaf, trwy gymorth ei ras,*
*Y llwybr a gerddodd Efe;*
*Nid rhyfedd os gwawdir y gwas,*
*Cans gwawd gafodd Arglwydd y ne'.*

*Nid oes arnaf gwilydd o'i groes –*
*Ei groes yw fy nghoron o hyd;*
*Ei fywyd i'm gwared a roes*
*Fy Ngheidwad, a'm prynodd mor ddrud:*
*Dioddefodd waradwydd a phoen,*
*A'r felltith ar Galfari fryn:*
*F'anrhydedd yw canlyn yr Oen –*
*Yr Oen a ddioddefodd fel hyn!*

**Pa agweddau ar dy swydd wyt ti'n eu mwynhau ?**
Wel, athrawes Ail Iaith Gymraeg ydw i, yn Ysgol Lewis i Ferched yn

**(Parhad ar dudalen 15)**

# The Golden Com

## *Leri George*

Mae'n debyg mai'r ffilm hon (sy'n addasiad o *Northern Lights*, y gyntaf yn y drioleg o nofelau, *His Dark Materials*, gan Philip Pullman) oedd ffilm deuluol fawr y Nadolig. Fel cyfres Harry Potter a'r *Da Vinci Code*, dyma ffilm – a llyfr – sydd wedi achosi cryn gynnwrf ymysg grwpiau Cristnogol, â nifer yn ei labelu'n wrth-Gristnogol ac yn gableddus.

Yn y ffilm rydym yn dilyn Lyra, merch ifanc benderfynol ac apelgar, wrth iddi geisio achub ei ffrind Roger o grafangau treisgar y 'gobblers' a'r *Magesterium* sydd, am ryw resymau annelwig, wedi dwyn nifer o blant a'u cludo i'r Gogledd Pell er mwyn arbrofi arnynt.

Efallai i chi, fel minnau, fwynhau'r ffilm heb gael eich tramgwyddo o gwbl. Yn sicr mae'r *Magesterium*, y corff sydd y tu ôl i'r arbrofi dirdynnol ar blant ac sy'n ceisio lladd ewyrth Lyra ar ddechrau'r ffilm, yn cynrychioli crefydd gyfundrefnol ar ei gwaethaf – yn chwantu am bŵer, ac yn gormesu ar ryddid unigolion. Ond, i mi, doedd y ffilm ddim yn teimlo fel ymosodiad ar Gristnogaeth.

Ond..! Rhaid wrth wyliadwriaeth. A hynny am dri rheswm, gredaf fi:

1. Mae sawl adolygiad o'r ffilm wedi tynnu sylw at y ffaith bod symboliaeth ac iaith grefyddol y llyfr wedi eu tymheru yn y ffilm er mwyn cadw'r carfannau crefyddol (Americanaidd) yn hapus. Mae hyn yn wir i raddau, mae'n siŵr.

2. Yn bwysicach, daw alegorïau crefyddol His Dark Materials yn gynyddol eglur yn yr ail nofel a'r drydedd. Sylweddolwn fod arwyr y nofelau, Will a Lyra, a'u cyfeillion, yn rhan o frwydr fawr sy'n rhyw ail-greu hanes Gardd Eden. Y gelyn yw lluoedd y nefoedd – 'Duw' a'r angylion – a'u braich ddaearol, y *Magesterium*.

# pass: Adolygiad

Yn y stori hon, fodd bynnag, dim ond drwy dorri'n llwyr oddi wrth awdurdod a dylanwad y pŵerau nefol gormesol y gall Will, Lyra a'r ddynoliaeth fod yn wirioneddol rydd.

3. Mae Pullman (sy'n aelod o'r Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol ac yn gefnogwr brwd i'r Dyneiddwyr Prydeinig) wedi bod yn agored wrth-Gristnogol mewn cyfweliadau yn y wasg.

Dyma ddyfyniad nodweddiadol, o'r *Daily Telegraph*:

> *Atheism suggests a degree of certainty that I'm not quite willing to accede. I suppose technically, you'd have to put me down as an agnostic. But if there is a God, and he is as the Christians describe him, then he deserves to be put down and rebelled against.*



Mewn sawl cyfweliad mae'r awdur yn sôn am ei gasineb o lyfrau Narnia C.S. Lewis. Dyma eiriau Pullman eto:

> *In Narnia the big questions are urgent and compelling and vital: is there a God? Who is it? How can I recognise him? What must I do to be good? I profoundly disagree with the answers that Lewis offers - in fact, as I say, I detest them…*
> (cyfweliad ar y we gydag adolygydd ffilmiau *Christianity Today*)

Wrth gwrs, nid wyf yn dweud na ddylai Cristnogion ddarllen a mwynhau gwaith awduron sy'n anffyddwyr. Mae mwynhau'r doniau mae Duw wedi eu rhoi i lenorion, artistiaid a cherddorion ac yn y blaen yn rhan o fwynhau ei greadigaeth. Rwy'n edmygu crefft anhygoel Pullman fel storïwr a'i ddawn i greu cymeriadau a bydoedd ffantasi mor ddyfeisgar a chofiadwy, ac fe fwynheuais ddarllen y ddwy nofel gyntaf yn y drioleg (a gwylio'r ffilm) yn fawr.

Er hyn rhaid cyfaddef na ddarllenais *The Amber Spyglass* (y trydydd llyfr) i'r diwedd. Pam? Wel, ymddiheuriadau am ddefnyddio geiriau Pullman ei hun yn ei erbyn, ond yn y diwedd rwy'n anghytuno'n llwyr â'r atebion mae e'n eu cynnig yn *His Dark Materials*, ac wrth i'r rheini ddod yn fwyfwy eglur yn y trydydd llyfr, maen nhw'n dod yn gynyddol anodd i'w stumogi.



***The Golden Compass***
***Cyf: Chris Weitz***
***Hyd: 114 munud***
***PG***

**(Parhad o dudalen 11)**

Ystrad Mynach. Fel llawer o athrawon eraill, dwi'n gallu ffeindio digon i gwyno amdano ym myd addysg heddiw! Mae'n gas 'da fi'r ffaith bod popeth – o dechnegau dysgu ac addysgu i rif ac enw fy ystafell ddosbarth – yn newid mor aml (dwi'n berson sy ddim yn or-hoff o newid!). Ond ar y llaw arall, dwi'n dal wrth fy modd yn y dosbarth gyda'r merched (a'r bechgyn erbyn hyn yn y chweched!), yn gweld pobl ifanc sydd eisie dysgu'r iaith. Wrth gwrs mae 'na ddigon o ddisgyblion sy'n llawer mwy negyddol ac yn llond llaw yn y dosbarth, ond diolch byth eu bod nhw yn y lleiafrif!

Dwi wedi bod yn ffodus iawn i gael mynd ar amryw o deithiau ysgol gan ymweld â gwledydd hynod o ddiddorol fel Belieze a Gwlad Thai wrth gyd-weithio â chwmni o'r enw World Challenge. Dwi'n dal yn methu credu 'mod i wedi 'treco' trwy'r jyngl ac i ben mynydd (uchel iawn!!) yng Ngwlad Thai!!

Ar ddiwrnod da (nid o reidrwydd yn ystod y gwyliau neu ar brynhawn Gwener) dwi'n dal i fynnu bod dysgu yn un o'r swyddi gorau sydd, a'i bod hi'n gallu bod yn fraint cael bod yn athrawes.


**I ble fydd y daith nesa?**
Gwyliau'r capel i sir Benfro fydd y daith nesa i fi! Dyma gyfle gwych i ymlacio gyda'n gilydd a chael amser hyfryd, o'r hynaf i'r ifancaf, ymhlith ffrindiau a chyd-Gristnogion.

Ond hefyd, dwi'n gobeithio mynd i'r Ariannin yn ystod yr haf. Mae ymweld â Phatagonia wastad wedi bod yn freuddwyd i fi, ac felly mae'n well i fi ddechrau ymarfer ychydig o ymadroddion Sbaeneg i hwyluso' r daith!



# Cymorth i Rwm

## *Catrin Lewis*




***Road to Romania:***
***Glimpses of God's Glory***
***Ann Penrose***
***Support for Romania, £6.99***

Doedd darllen y llyfr hwn ddim yn orchwyl lafurus o gwbl – i'r gwrthwyneb, roedd yn ddifyr, yn ddoniol ar adegau, yn fywiog ac yn fyrlymus.

Os ydych wedi clywed Ann Penrose yn siarad fe fyddwch yn gyfarwydd â'i harddull agos-atoch. Mae hi bob amser yn siarad o'i phrofiad personol ei hun, ac yn hynod o onest. Daw hynny i'r amlwg yn y llyfr hwn: mae'n union fel gwrando arni'n siarad. Mae hi'n mynd o'r naill atgof i'r llall, gan rannu manylion wrth basio. Mae'n amlwg ei bod hi ei hun yn cael bendith wrth ddwyn i gof yr hyn a wnaeth Duw yn Rwmania trwy waith elusen 'Support for Romania'.

Mae nifer o luniau lliw yn y llyfr, sy'n help pellach i ddod â'r hanesion yn fyw, ac i'n hatgoffa mai digwyddiadau go iawn sy'n cael eu cofnodi, pethau a ddigwyddodd i bobl go iawn. Mae gweld amgylchiadau byw rhai o bobl Rwmania yn sialens, a gweld wynebau unigolion wrth dderbyn y parseli yn anogaeth.

Cefais her wrth ddarllen y llyfr hwn. Her i weddïo'n gyson

# ania: Adolygiad

dros y gwaith. Her i fod yn ddiolchgar am y cyfan sydd gen i. Her i roi yn hael. Her i ddangos trugaredd Duw i eraill mewn ffordd ymarferol. Her wrth weld ffyddlondeb Cristnogion Rwmania, er eu bod mor dlawd yn faterol.

Mae llawer o'r hanesion yn gyfarwydd, ond daethant i gyd yn ffres i'r cof wrth ddarllen. Mae Ann Penrose yn ofalus iawn i gyfeirio'r clod i gyd at Dduw a fu mor ffyddlon yn nerthu'r gweithwyr. Duw fu'n trefnu cynifer o 'gyd-ddigwyddiadau' trawiadol a fu'n help ac yn wefr i Gristnogion Rwmania. Mae'r llyfr yn llawn hanesion amdanynt yn derbyn rhoddion anarferol iawn yn y warws yn Llanisien, dim ond i ddarganfod bod angen yr union bethau hynny ar ryw eglwys neu gartref yn Rwmania. Mae'n gysur gwybod bod gweddi rhywun yn y wlad honno yn gallu cael ei hateb gan Dduw sy'n gosod baich arbennig ar galon rhywun yma yng Nghymru. Dyma anogaeth inni barhau i gyfrannu at y gwaith.

Is-deitl llyfr Ann Penrose yw, 'Glimpses of God's Glory – Stories to encourage and inspire'. A dyna fu fy mhrofiad innau o'i ddarllen.

Mae'r llyfr ar gael trwy gysylltu â Support for Romania. Ebost: supportforromania@lineone.net


**Hysbyseb am Weithiwr**

Rydym yn chwilio am weithiwr i gynorthwyo gyda gwaith yr Eglwys. Cynigir cytundeb blwyddyn - Medi 2008 i Awst 2009. Gellir addasu'r cyfrifoldebau union yn ôl profiadau a doniau'r ymgeisydd.

Am fwy o wybodaeth, ebostiwch yr eglwys ar: gwybodaeth@cwmpawd.org.uk

# Newyddion

**Gwasanaethau Nadolig**
Dechreuodd y Nadolig yn gynnar eleni, gyda'r cyntaf o'n dau wasanaeth carolau yn cael ei gynnal ar 2 Rhagfyr yn yr Eglwys Newydd! Bu'n hyfryd gweld cysylltiadau – hen a newydd – yn ogystal ag aelodau teulu yn ymweld â'r eglwys dros yr ŵyl.

**Encil yr Eglwys**
Cofiwch archebu lle ar Encil yr Eglwys eto eleni (trwy Amanda Griffiths). Bydd yn digwydd yng Nghanolfan yr Haven, Penfro, ddydd Iau, 3 Ebrill – ddydd Sadwrn, 5 Ebrill.

**Priodas Eleri a Jon**
Roedd 5 Ionawr yn ddiwrnod i'w gofio i nifer yn yr eglwys, ac yn enwedig i Eleri a Jon. Llongyfarchiadau mawr i chi ar eich priodas – a phob hwyl wrth setlo i mewn i'ch tŷ yn Grangetown. Braf clywed eich bod wedi mwynhau'r mis mel yn Awstria er bod y car wedi torri lawr ar y ffordd i'r maes awyr!

**Triniaeth Luned yn parhau**
Parhawn i gofio am Luned a'r teulu wrth i driniaeth Luned barhau yn Ysbyty'r Plant, ac yn Birmingham ym mis Chwefror. Mae wedi bod yn braf cael Llion nôl yn ein plith ers iddo ddychwelyd o Lundain yn ddiweddar.

**Gwefan**
Os ydych chi wedi colli oedfa, cofiwch fod modd gwrando ar bregethau'r bore a'r hwyr ar wefan y capel, www.cwmpawd.org.

**Gwasanaethau'r Eglwys Newydd**
3 Chwefror – Rhodri Jones
2 Mawrth – Gwynn Williams

**Gŵyl Ddewi**
Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi fel eglwys nos Wener, 29 Chwefror am 6 yr hwyr. Croeso i holl gysylltiadau'r eglwys i ymuno â ni am gawl ac adloniant.

**Cyfarfodydd y Dysgwyr**
Boreau coffi, 10.30 - 12.00, fore Sadwrn. Dyma'r amserlen ar gyfer y tymor nesaf:

| | |
|---|---|
| 16 Chwefror | Christine James |
| 15 Mawrth | Ann Davies |
| 19 Ebrill | Amanda Griffiths |
| 17 Mai | John Emyr |

# I’r Dyddiadur

## *Yn ystod yr wythnos…*

**Clwb Hapus Awr** | nos Lun | 5.30 - 6.30pm
**Cyfarfod Gweddi** | nos Fawrth | 7.30pm
**Paned a Sgwrs** | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
**Cylch y Plant Bach** | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
**Clwb y Bobl Ifainc** | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

## *Ar ddydd Sul…*

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau’r ysgol (11.45 – 12.30am).

| | | |
|---|---|---|
| *Chwefror* | *3* | *Gwynn Williams* |
| | *10* | *Gwynn Williams* |
| | *17* | *Lewis Roderick* |
| | *24* | *Gwynn Williams* |
| *Mawrth* | *2* | *Gwynn Williams / i’w drefnu* |
| | *9* | *Gwynn Williams* |
| | *16* | *Gwynn Williams* |
| | *23* | *Gwynn Williams* |
| | *30* | *Gwynn Williams* |

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni, Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org